**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG RITHIOL**

**NOS FAWRTH 2AIL CHWEFROR 2021 AM 7PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd Gareth Owen bawb i'r cyfarfod, i barhau â'r drafodaeth yn ymwneud â dichonolrwydd pryniant cyn Eglwys Dewi Sant, Pontrhydfendigaid, gan y Cyngor Cymuned, at ddefnydd y gymuned. Gwahoddwyd cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion i'r cyfarfod hwn.

**2. YN BRESENNOL**

**CYNGOR SIR CEREDIGION (CSC)**

Mr Arwyn Davies, Cydgysylltydd Cymunedau Gwledig yr Economi ac Adfywio. (AD)

Cynghorydd Sirol Rhodri Evans, Aelod Cabinet yn gyfrifol am yr Economi ac Adfywio (RhE)

Meleri Richards; Cydgysylltydd Cymunedau Gwledig Yr Economi ac Adfywio. (MR)

Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies – Ward Lledrod (ILD)

**Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**

Cyngh. Gareth Owen (Cadeirydd) (GO)

Y Gyngh. Laura Jones (Dirprwy-Gadeirydd) (LJ)

Y Gyngh. Clare Hughes (CH)

Y Gyngh. Angharad Jones (AJ)

Cyngh. Doug Rowbotham (DR)

Eleri Thomas (Clerc) (ET)

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Y Cyngh. John Jones; Y Cyngh. Non Jones; &

Cynghorwyr Alun Price Jones; Mair Jones & Wil Lewis (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd)

4. **Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Sir eu hunain ac amlinellu eu rolau** o fewn y Cyngor Sir (gweler uchod). Y bwriad oedd eu bod yn cynnig cyngor ynghylch y prosiect a'r camau, a fyddai'n angenrheidiol, i'w wireddu.

5. **Dywedodd MR y gallai CSC ddarparu cymorth swyddog mewn perthynas â'r fenter**. Roedd cyflogeion y Cyngor Sir yn gweithio gan amlaf oddi cartref ar hyn o bryd, oherwydd y Pandemig Covid-19; byddai cymorth felly'n rithiol. Cefnogodd yr Awdurdod Lleol ymdrechion cymunedol yn y gorffennol e.e. ym

Mhontarfynach a Silian.  Gellid dysgu gwersi ac arfer da a'u defnyddio fel modelau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Soniwyd bod dwy neuadd yn barod ar gynnig yn y Pentref megis Neuadd Pantyfedwen a'r Pafiliwn.  Cytunwyd na fyddai'r fenter arfaethedig yn amharu ar y cyfleusterau sydd eisoes ar gael, ond yn hytrach, yn ychwanegu’r sefyllfa bresennol.

Nodwyd bod addoldai eraill wedi'u lleoli ym Mhontrhydfendigaid a Ffair Rhos a gallai sefyllfa debyg godi’n y dyfodol.

**6. AMCAN Y CYNGOR CYMUNED**

Adroddodd aelodau mai’r nod oedd prynu cyn-adeilad Eglwys Dewi Sant, Pontrhdfendigaid (drwy gyllid grant) a’i drosi'n dai cymdeithasol/fforddiadwy i Bobl Ifainc.

**7. TAI CYMDEITHASOL/FFORDDIADWY**

Gofynnwyd a ellid ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy, pan nad y Landlord.  *Cytunodd AD i ddarganfod yr ateb.*

Adroddwyd bod grym galw am dai fforddiadwy yn lleol.  Nid oedd pobl ifainc yn medru cychwyn ar yr ysgol-eiddo a dyfynnwyd 80%, fel canran ohonynt yn gadael yr ardal, gan eu bont yn cael eu prisio allan o’r farchnad dai.

Cyfeiriodd RhE at y cynllun peilot newydd, a dreialwyd gan GSC i ddarparu cyfleoedd i bobl leol ddechrau ar yr ysgol-eiddo, drwy brynu rhan o dir am bris gostyngol.  Pe bai'r prosiect yn llwyddiannus, ehangir i ardaloedd pellach yng Ngheredigion.  Gwelir y dau ddarn o dir hunan-adeiladu fforddiadwy ym Mharc yr Hydd, Ciliau Aeron.

Gwnaed penderfyniadau cynllunio’n aml gan Lywodraeth Cymru nad oedd bob amser yn cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Lleol.

**8. CYLLIDEB**

Gallai cyllid brofi’n her ac yn seiliedig ar dystiolaeth o’r angen.

Pris gofyn am yr  adeilad ar y farchnad oedd £120,000.  Cefnogodd DR y prosiect arfaethedig ond holodd a oedd yn realistig bod y Cyngor Cymuned yn ceisio ymrwymiad a oedd yn hawlio cyfalaf sylweddol; amcangyfrifodd y byddai angen £180,000 ychwanegol i'r pris gofyn i wireddu’r cynllun.

Roedd cymysgedd o ffrydiau ariannu ar gael.  Dywedwyd bod ceisio grant Arian y Loteri yn broses hir.  Gallai CAVO ddod o hyd i botiau cyllid.

**9. Awgrymwyd Holiadur/Arolwg Ymgysylltu â'r Gymuned fel man cychwyn**

Gellid trefnu cwestiynau drafft.  Gofynnwyd tybed a fyddai’n bosibl cyflwyno rhestr opsiynau i unigolion a hwy i fynegi’u hoff opsiwn.

Argymhellwyd dull cynhwysol. Nid y nod oedd cyflwyno syniadau ynghylch defnydd yr adeilad yn y dyfodol ond yn hytrach ceisio awgrymiadau/adborth i'r prosiect.

**Arolwg**: papur (gallai fod yn anodd o dan gyfyngiadau Covid-19)

**Gellid defnyddio Survey Monkey** (offeryn arolwg ar-lein am ddim) ar lwyfannau cymdeithasol Fb a safle ar y we'r Cyngor Cymuned.

Pe bai cymorth cymunedol yn amlwg, gellid cymryd y cam nesaf.

Yn realistig, byddai angen 6-12 mis i sicrhau £120,000 o gyllid grant.

## 10. CYNLLUN GWEITHREDU

**10.1 Gofyn i Mr Mike Lewis a Mr Vaughan Evans** tybed a fyddai'n bosibl i estyn y cyfnod gwerthu 6 mis er mwyn caniatau'r Cyngor Cymuned yr amser i ystyried opsiynau.

**10.2 Derbyn Adborth Cymunedol**

**10.3 Llunio Cynllun Busnes Drafft**

Byddai angen 4-5 mis nid i ddod o hyd i'r cyllid ond sefydlu ffordd ar gyfer ariannu. Gallai'r adeilad ei werthu i barti arall ond roedd y syniadau a grybwyllwyd eisoes yn rhai oedd yn bosibl eu trosglwyddo ar gyfer adeiladau eraill pe bai'r cyfle'n codi. Gellid gofyn am gyngor Llywodraeth Cymru parthed y galw am dai cymdeithasol i Bobl Ifainc.

Cynigiwyd y gallai'r Cyngor Cymuned geisio prynu tai ar gyfer Pobl Ifainc neu i weithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai. Ffafriodd y Cyngor Cymuned cartrefi i deuluoedd yn hytrach nag fflatiau neu unedau sengl.

Diolchwyd i swyddogion CSC am eu harweiniad ac am fynychu'r cyfarfod. Cytunodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies i fod yn bwynt cyswllt CSC ac i yrru'r prosiect yn ei flaen

*Gadawodd swyddogion CSC y cyfarfod.*

**Ailadroddodd y Cyngor Cymuned y cynllun arfaethedig megis:**

1. **Gofyn** i Mr Mike Lewis am gyfnod "gras"
2. **Llunio Arolwg/Holiadur** ymgysylltu â'r Gymuned
3. **Archwilio'r posibilrwydd** o ddarparu tai fforddiadwy.

   Ffafriwyd y Cyngor Cymuned trosi'r adeilad yn dai cymdeithasol/fforddiadwy yn hytrach na chaffi. Gellid cysylltu â'r AS Ben Lake a MS Elin Jones am gefnogaeth. Adroddwyd bod Tai Ceredigion wedi derbyn cyllid grantiau a tybed a fyddai'n bosibl dilyn yr un trywydd.

Teimlwyd y gallai'r Cyngor Cymuned gynnig tŷ i berson lleol ar gyfradd gystadleuol.

Ffafriwyd yn ogystal, rhenti gyda'r bwriad o brynu (rent to buy). Ailfuddsoddir unrhyw elw. Ystyriwyd cyfranddaliadau cymunedol. Nodwyd mai ond un tafarn oedd bellach yn y pentref gan fod y Llew Du ond yn cynnig Gwely a Brecwast eisoes. Adroddwyd bod y Llew Coch ar werth.

Dywedwyd na fyddai'n rhaid i Glerc ET fynychu cyfarfodydd arbennig y dyfodol yn ymwneud â'r prosiect hwn. Byddai LJ yn trefnu'r cyfarfodydd Zoom a gosodir trefniadau ar gyfer cadw'r cofnodion. Dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned i fod yn bresennol. Argymhellodd CSC sefydlu gweithgor i gynnwys aelodau etholedig ac aelodau o'r gymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm.

-------------------------------------------------------------(arwyddwyd/dyddiad)